sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
# Cynllun Datblygu Lleol

# Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
# Adendwm Safleoedd Ychwanegol



Mawrth 2025

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** .......... **2**

**2. Cam Sgrinio** .......... **3**

2.1 Dyraniadau'r CDLI diwygiedig (Safleoedd Ychwanegol) .......... 3

2.2 Effeithiau sy'n gysylltiedig â dŵr gwastraff (diweddariad) .......... 6

2.3 Sgrinio ar gyfer Effeithiau Cyfunol .......... 7

2.4 Crynodeb Sgrinio .......... 8

**3. Asesiad Priodol** .......... **9**

3.1 Ymdrin ag Effeithiau Cyfunol .......... 10

**4. Casgliad** .......... **11**

**5. Y Camau Nesaf** .......... **11**

**Atodiad A. Sylwebaeth Sgrinio (Safleoedd Ychwanegol)** .......... **12**


# Byrfoddau

| | |
|---|---|
| **CDLI diwygiedig** | Cynllun Datblygu Lleol (diwygiedig) (cyfeirir ato hefyd fel y Cynllun) |
| **ARhC** | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| **PEDW** | Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru |
| **CCNS** | Corff Cadwraeth Natur Statudol |
| **GTDG** | Gwaith Trin Dŵr Gwastraff |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) diwygiedig. Mae'r CDLl diwygiedig yn gynllun defnydd tir sy'n amlinellu lleoliad a nifer y datblygiadau yn Sir Gaerfyrddin am gyfnod o 15 mlynedd rhwng 2018 a 2033, a bydd yn disodli'r CDLl mabwysiedig presennol. Trwy gydol cyfnod paratoi'r CDLl diwygiedig, y mae sawl fersiwn ohono wedi bod, mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) cysylltiedig wedi'i gynnal mewn modd ailadroddol ac integredig fel rhan o'r broses o lunio'r cynllun ers 2018.

1.2 Pwrpas yr ARhC hwn yw sicrhau bod Safleoedd Ychwanegol a gyflwynwyd ar gyfer eu cynnwys o bosibl yn yr 2il CDLl diwygiedig Adneuo[1], yn dilyn llythyr a gyflwynwyd gan arolygwyr Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)[2], wedi cael eu hystyried yn briodol o ran eu heffaith bosibl ar y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Ar yr adeg gyhoeddi, mae'r penderfyniad ynghylch dyrannu'r Safleoedd Ychwanegol hyn yn dal i fod yn fater i'r arolygydd wneud argymhellion yn ei gylch fel rhan o'r broses archwilio. Er mwyn eglurder, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r *2il CDLl diwygiedig Adneuo* ers ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ym mis Chwefror 2023.

1.3 Mae'r *Adendwm Safleoedd Ychwanegol ARhC* hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau ac argymhellion yr *2il Adendwm ARhC*[3] (Chwefror 2024), *yr Adendwm ARhC*[4] (Chwefror 2023), *Adroddiad ARhC*[5] (Rhagfyr 2020) ac *Adroddiad Sgrinio ARhC*[6] anffurfiol cynharach o'r Strategaeth a Ffefrir (Rhagfyr 2018), sy'n ofynnol o dan *Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (fel y'u diwygiwyd) 2017*[7] (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y Rheoliadau) .

1.4 Lle bo'n briodol, mae'r ddogfen bresennol yn cynnwys rhannau o'r asesiadau uchod a chroesgyfeiriadau atynt. Mae ymdrech wedi'i gwneud i osgoi ailadrodd testun atodol nad yw'n hanfodol i'r rhesymeg a'r casgliadau a wneir yma. Mae hyn er mwyn rhoi cofnod hygyrch a thryloyw o'r asesiad o'r CDLl diwygiedig drwy gydol ei baratoi, o dan y Rheoliadau. Serch hynny, rhaid peidio ag ystyried y ddogfen bresennol ar ei phen ei hun heb ystyried ymdrechion ARhC cynharach.

---

[1] Cynllun Datblygu Lleol 2018-2033 Cyngor Sir Caerfyrddin
[2] 31 Ionawr 2025 - Nodyn yr Arolygydd ynghylch Tai - Archwiliad Annibynnol - PEDW
[3] 2il Adendwm ARhC
[4] Adendwm ARhC - 2il CDLl diwygiedig
[5] Adroddiad ARhC
[6] Adroddiad Sgrinio ARhC
[7] Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017

# 2. Cam Sgrinio

2.0.1 Cyfeirir yn benodol at y fethodoleg a nodir ym Mhennod 2 *yr Adroddiad ARhC*, fel y'i diwygiwyd gan yr *Adendwm ARhC.*

2.0.2 Yn ôl Cyfeirlyfr Dynodiadau Safleoedd a Warchodir y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, nid ychwanegwyd unrhyw ddynodiadau pellach (nac ymgeiswyr am hynny) at y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol o fewn radiws 15km i Sir Gaerfyrddin ers adeg ysgrifennu. Yn ogystal, nid oes cyhoeddiadau pellach wedi bod yn ymwneud â nodweddu safleoedd dynodedig, statws cadwraeth, na newidiadau i gyflwr eu nodweddion cymhwysol ers yr *2il Adendwm ARhC.*

## 2.1 Dyraniadau'r CDLl diwygiedig (Safleoedd Ychwanegol)

2.1.1 Canfuwyd bod y llwybrau effaith posibl a welir yn Nhasg 2 yr *Adroddiad ARhC* (a ddiwygiwyd wedyn ym mharagraff 3.2.1 o'r *Adendwm ARhC*), yn ogystal â'r rhai yn yr *Adendwm ARhC* a'r *2il Adendwm ARhC*, yn dal yn briodol.

2.1.2 Mae cyfanswm o deg dyraniad preswyl newydd, ynghyd â dau o safleoedd presennol y CDLl diwygiedig lle mae cynnydd arfaethedig yn nifer yr unedau a ddyrennir, yn destun sgrinio[8]. Fel yr amlinellwyd yn y llythyr uchod gan PEDW, y rhesymeg dros y Safleoedd Ychwanegol hyn yw cynnal hyblygrwydd o 10% o leiaf (sy'n cyfateb i gyfanswm cyflenwad tai o 9,704) yn sgil cofnodi nad oedd y lwfans hap-safleoedd a ddyrannwyd wedi cael ei gyflawni ar ddechrau cyfnod y cynllun. Felly, mae'r CDLl diwygiedig yn parhau i nodi gofyniad ar gyfer 8,882 o dai. Gan nad yw lefel y twf a gynigiwyd gan y CDLl diwygiedig wedi newid, mae'r deilliant sgrinio blaenorol a gafwyd yn yr *Adroddiad ARhC* ar gyfer *SP4: Dull Cynaliadwy o Ddarparu Tai Newydd* neu *HOM1: Dyraniadau Tai* yn dal yn gyson (h.y., canfuwyd bod y ffactorau perthnasol sy'n sbarduno newid a ddarperir gan y polisïau hyn yn cael eu hasesu'n fwy priodol drwy ddyraniadau penodol y CDLl diwygiedig).

2.1.4 Cyfeirir at Baragraff 1.4.3 yr *Adroddiad ARhC*, 3.2.28 yr *Adendwm ARhC*, a 2.1.4 yr *2il Adendwm ARhC* (h.y., nid yw'n ofynnol o dan y Rheoliadau i asesu safleoedd y darperir ar eu cyfer fel ymrwymiadau â chaniatâd presennol[9]).

2.1.5 Fel y cafodd ei nodi yn Nhabl 1 a'i ategu gan sylwebaeth yn Atodiad A, mae un Safle Ychwanegol wedi'i sgrinio allan o ran yr angen am asesiad pellach. Nodwyd y bydd saith ohonynt o bosibl yn cael effaith arwyddocaol debygol ar gyfanrwydd safle dynodedig ac, felly, yn golygu y bydd angen cynnal Asesiad Priodol pellach.

2.1.6 Mae'r cynnydd arfaethedig yn nifer yr unedau ar gyfer PrC3/(iv) a PrC3/(i) wedi'i adolygu a chanfuwyd bod ymdrechion ARhC blaenorol yn dal yn gyson (gweler PrC3/h6, Tudalen 211, a PrC3/MU1, Tudalen 224 yr Adroddiad ARhC, yn y drefn honno). Mae PRC3/h22 yn cael ei sgrinio drwy hyn (y cyfeirir ato fel PrC3/(ii)) oherwydd ei fod yn cynnwys ymrwymiadau yn unig yn flaenorol, er ei fod bellach hefyd

[8] Cyfeirir at y rhain ar y cyd fel Safleoedd Ychwanegol sydd at bob pwrpas yn ddyraniadau posibl y CDLl diwygiedig.
[9] Mae'r rhain yn cynnwys: PrC1/(i), PrC1/(ii), PrC1/(iii) SeC1/(i), SuV2/(i), PrC2/(i) PrC2/(ii), SeC3/(i), SeC3/(ii), SeC6/(i), PrC3/(iii), PrC3/(vi), PrC3/(vii), SuV25/(i), SuV37/(i), SeC15/(i), ac SeC19/(i).

yn cael ei gynnig fel dyraniad i adlewyrchu estyniad arfaethedig i'r safle. Hefyd, gellir gweld sgrinio ar gyfer SeC7/(i) yn yr *2il Adendwm ARhC* (gweler Tudalen 39, a nodir fel SG2/1). Ni ystyrir bod arwynebedd llai y safle yn effeithio ar yr asesiad blaenorol.

**Tabl 1 -** Crynodeb o sgrinio ARhC o *gynigion eraill yr Ail CDLI diwygiedig Adneuo.* I gael sylwebaeth safle-benodol, cyfeiriwch at Atodiad A. Y = Ydy, nodir bod y cynnig yn debygol o gael effaith arwyddocaol o dan y llwybr effaith hwn (a amlygir mewn llwyd); N = NID yw'r cynnig yn debygol o achosi effeithiau o dan y llwybr effaith hwn.

| Cyfeirnod y Safle | Enw | Dyfrol | Morol | Arfordir | Rhywogaethau Symudol | Hamdden | Echdynnu | Dŵr Gwastraff | Ffosffadau | Llygredd aer | Aflonyddu | Casgliad Sgrinio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PrC1/(iv) | Tir oddi ar Heol Trefechan, Caerfyrddin | Y | Y | N | Y | N | N | Y | N | N | Y | Mewn |
| PrC2/(iii) | Tir yn Heol Pendderi, y Bryn | N | N | N | N | N | N | Y | N | N | N | Mewn |
| PrC2/(v) | Tir oddi ar Heol y Mynydd, y Bryn | N | N | N | N | N | N | Y | N | N | N | Mewn |
| SeC6/(ii) | Garej Y Fforest | Y | Y | N | N | N | N | N | N | N | N | Mewn |
| SeC6/(iii) | Tir ar Heol Fforest | Y | Y | N | N | N | N | N | N | N | N | Mewn |
| PrC3/(ix) | Iard Sgrap, Gorslas | Y | Y | N | Y | N | N | N | N | N | Y | Mewn |
| PrC3/(viii) | Tir y tu cefn i 108 a 114 Heol Waterloo, Pen-y-groes | N | N | N | Y | N | N | N | N | N | N | Mewn |
| PrC3/(v) | Tir oddi ar Heol Parcdir, Rhydaman | N | N | N | Y | N | N | N | N | N | N | Mewn |
| PrC3/(ii) | Gerllaw Pant-y-Blodau, Pen-y-groes | N | N | N | Y | N | N | N | N | N | N | Mewn |
| SuV59/(i) | I'r gogledd-ddwyrain o Ysgol Bancyfelin | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | Allan |

## 2.2 Effeithiau sy'n gysylltiedig â dŵr gwastraff (diweddariad)

2.2.1 Rhaid ystyried yr is-adran hon ar y cyd â Pharagraffau 3.2.70 i 3.2.75 a 3.2.77 i 3.2.79 o'r *Adroddiad ARhC* (fel y'i diwygiwyd gan Gyfeirnod 27 a 28 o'r *Adendwm ARhC*), ynghyd â Pharagraffau 2.1.5 a 2.1.10 o'r *2il Adendwm ARhC.*

2.2.2 Fel y dangosir yn Nhabl 1, mae tri Safle Ychwanegol wedi cael eu sgrinio gan y gallent gael eu gwasanaethu gan GTDG â phroblemau a nodwyd yn ymwneud â Llif Tywydd Sych neu wedi'u cwmpasu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cilfach Tywyn. Mae'r rhain yn ychwanegol at y rhai a gasglwyd yn Nhabl 3 o'r *2il Adendwm ARhC.*

2.2.3 Disgwylir i PrC3/(ii) gael ei wasanaethu gan GTDG Garnswllt sydd hefyd yn gwasanaethu aneddiadau mewn awdurdodau cyfagos, gan gynnwys Gwauncaegurwen, Tairgwaith, a Chwm-gors yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn ogystal â Lôn y Felin a Garnswllt yn Abertawe. Serch hynny, ni nodwyd unrhyw broblemau o ran capasiti neu Lif Tywydd Sych yn y GTDG hwn, ac felly, mae'r Safle Ychwanegol hwn wedi'i sgrinio allan o dan y llwybr effaith hwn.

2.2.4 Er mwyn eglurder, mae natur trin dŵr gwastraff yn golygu bod yn rhaid asesu Dyraniad (posibl) y CDLI sydd ag effaith nad yw'n debygol o fod yn arwyddocaol yn unigol, am effeithiau arwyddocaol tebygol yn gyfunol â datblygiadau cyfagos eraill sydd wedi'u cynllunio a fydd yn arwain at ollwng dŵr gwastraff. Yn unol â hynny, mae categori sgrinio 'I'[10] yn cael ei bennu i ddyraniadau sydd wedi'u sgrinio i mewn oherwydd effaith arwyddocaol debygol, boed yn unigol neu'n gyfunol. Mewn cyferbyniad, mae categori 'J'[11] yn cael ei bennu i ddyraniadau sydd wedi'u sgrinio allan, sy'n dangos eu bod wedi cael eu hasesu ar gyfer effeithiau cyfunol ond ni nodwyd unrhyw effaith. Er bod y dull hwn yn gyson ag ymdrechion ARhC blaenorol, roedd anghysondeb wrth gymhwyso categorïau sgrinio a gyflwynwyd yn yr *Adroddiad ARhC* (Tudalen 35). Yn benodol, dylid fod wedi pennu categori 'K'[12] i ddyraniadau a gafodd eu sgrinio allan yn dilyn asesiad o'r effeithiau cyfunol, yn hytrach na 'J'. Felly, dylai unrhyw safle a bennwyd yn gategori 'J' yn flaenorol mewn adroddiadau ARhC cynharach gael ei ystyried yn gategori 'K' bellach.

2.2.5 Cyfeirir yn benodol eto at Baragraff 2.1.6 yr *2il Adendwm ARhC.*

---

[10] *Polisi neu gynnig sydd ag effaith arwyddocaol debygol ar safle yn unigol.*
[11] *Polisi neu gynnig sydd yn effeithio ar safle ond nid yn debygol o fod yn arwyddocaol yn unigol, felly angen gwirio am effeithiau arwyddocaol tebygol cyfunol (Gwirio am effeithiau cyfunol ac ailgategoreiddio).*
[12] *Polisi neu gynnig nad yw'n debygol o effeithio'n arwyddocaol yn unigol nac yn gyfunol (Sgrinio allan ar ôl y prawf cyfunol).*

## 2.3 Sgrinio ar gyfer Effeithiau Cyfunol

2.3.1 Fel y manylwyd yn *yr Adroddiad ARhC* (gweler tudalen 45), o dan Erthygl 6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd mae'n ofynnol bod potensial gan gynlluniau i gael effaith arwyddocaol naill ai'n unigol neu'n gyfunol â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill. Mae'r Adran hon yn ategu Tasg 3 yn yr *Adroddiad ARhC* a'r *Adendwm ARhC*, yn ogystal ag Adran 2.3 ac Atodiad C (Adran 4.3) yn yr *2il Adendwm ARhC.*

2.3.2 Ystyrir effeithiau cyfunol o ran y rhyngweithio posibl rhwng cynigion y cynlluniau (sydd wedi'u hystyried i bob pwrpas yn Adran 2.2) ac o ran yr effaith gronnol gyda chynlluniau a phrosiectau eraill.

2.3.3 Yn dilyn adolygiad, mae'r cynlluniau cyfagos hynny a sgriniwyd yn flaenorol yn Adran 4.3.2 Atodiad C yn yr *2il Adendwm ARhC* wedi'u diweddaru. Ers hynny, mae Cyngor Sir Penfro wedi cyhoeddi eu 2il CDLl diwygiedig Adneuo sy'n diwygio cynllun adneuo cynharach a gyhoeddwyd yn flaenorol yn 2020. Mae'r newidiadau hyn yn canolbwyntio ar leihau'r ddarpariaeth tai (tua 14%), cynyddu'r cyfleoedd cyflogaeth drwy'r Porthladd Rhydd Celtaidd, darpariaethau newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a chydymffurfiaeth gyffredinol â pholisi cenedlaethol wedi'i ddiweddaru, ymhlith eraill[13]. Er nad yw'r ARhC[14] perthnasol wedi dod i gasgliad eto, mae rhai gwahaniaethau o bwys rhwng nifer yr unedau preswyl a ystyriwyd yn flaenorol yn yr *2il Adendwm ARhC* a chynllun adneuo diweddaraf Sir Benfro (61 a 78 annedd yn y drefn honno). Gwelir nad yw hyn yn cael unrhyw effaith bosibl y tu hwnt i'r llwybrau hynny a nodwyd eisoes (h.y. ffosffadau) mewn ymdrechion ARhC blaenorol.

2.3.4 Mae'r Strategaethau a Ffefrir ar gyfer CDLl diwygiedig (2023-2038) Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Abertawe hefyd wedi'u cyhoeddi ers hynny. Ar yr adeg hon o lunio cynlluniau, nid yw'r naill na'r llall yn cynnwys polisïau na dyraniadau defnydd tir manwl, ond yn hytrach maent yn nodi'r uchelgais cyffredinol, y lefel twf a ffefrir a'r ymagwedd at ddosbarthu gofodol, yn ogystal â pholisïau strategol cyffredinol wrth baratoi ar gyfer eu cynlluniau adneuo yn y dyfodol. Yn eu Hasesiadau Rheoliadau Cynefinoedd perthnasol, dywedodd Castell-nedd[15] na ellir diystyru effaith gyfunol â'r CDLl diwygiedig a aseswyd, ond cafodd yr angen am asesiad o'r effeithiau cyfunol ei ddiystyru gan Abertawe[16] yn ystod y cam strategaeth a ffefrir.

2.3.5 Yn ogystal, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft wedi'i gyhoeddi gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru[17]. Nid oes unrhyw ARhC wedi'i gynnal hyd yn hyn[18]. Ar wahân i'r rhain, ni nodwyd unrhyw gynlluniau neu brosiectau newydd eraill sydd â photensial i arwain at effeithiau cyfunol.

2.3.6 Gan nad oedd 'Categori J'[19] ychwanegol wedi'i nodi drwy sgrinio'r safleoedd ychwanegol, nid oes gofyniad pellach i asesu ar gyfer effeithiau 'cyfunol'.

---

[13] Mae CDLl diwygiedig Adneuo 2 Cyngor Sir Penfro / Atodiad A yn amlinellu newidiadau allweddol.
[14] Arfarniad Rheoli Cynefinoedd - Cyngor Sir Penfro
[15] Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd CDLl diwygiedig Castell-nedd Port Talbot: Strategaeth a Ffafrir
[16] Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol CDLl diwygiedig Abertawe (Strategaeth a Ffefrir)
[17] Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (2025-2030) - Cyd-bwyllgor Corfforedig
[18] Asesiad Effaith Integredig Interim ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
[19] *Polisi neu gynnig sydd yn effeithio ar safle ond nid yn debygol o fod yn arwyddocaol yn unigol, felly angen gwirio am effeithiau arwyddocaol tebygol cyfunol*

## 2.4 Crynodeb Sgrinio

2.4.1 Mae'r Safleoedd Ychwanegol arfaethedig wedi cael eu sgrinio yn unol â gofynion y Rheoliadau. I grynhoi, …

- **Mae SuV59/(i) wedi cael ei sgrinio allan o ran yr angen am asesiad priodol.**

- **Penderfynir bod naw Safle Ychwanegol yn cael effaith arwyddocaol debygol ar gyfanrwydd safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (fel y dangosir yn Nhabl 1), naill ai'n unigol neu'n gyfunol. Cyfeiriwch at Atodiad A sy'n nodi'r safleoedd yr effeithir arnynt a'r llwybrau effaith cysylltiedig.**

- **Ni nodwyd unrhyw safleoedd ychwanegol o ran Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol na llwybr effaith ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a nodwyd mewn ymdrechion ARhC blaenorol.**

2.4.2 Deuir i'r casgliad sgrinio uchod ochr yn ochr â'r rhai a wnaed yn yr *Adroddiad Sgrinio ARhC*, *yr Adroddiad ARhC* (fel y'i diwygiwyd gan Atodiad A *yr Adendwm ARhC*), *yr Adendwm ARhC* (fel y'i diwygiwyd gan yr *2il Adendwm ARhC*), a'r *2il Adendwm ARhC*.

# 3. Asesiad Priodol

3.0.1 Dylid darllen y Bennod hon ar y cyd â'r asesiad priodol sydd wedi'i gynnwys yn yr *Adroddiad ARhC* (gan gynnwys newidiadau Cyfeirnod 41 i 43 a nodir yn *yr Adendwm ARhC*), *yr Adendwm ARhC* (fel y'i diwygiwyd gan yr *2il Adendwm ARhC*), a'r *2il Adendwm ARhC*.

3.0.2 Mae cyfraith achos ddiweddar wedi sefydlu egwyddorion allweddol o ran dibyniaeth ar fesurau lliniaru mewn ARhC cynllun, gan gynnwys y rhai sy'n amodol ar fodloni amodau penodol. Er bod Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect yn ei gwneud yn ofynnol i fesurau lliniaru gael eu diffinio'n glir cyn dod i'r casgliad na fydd effaith arwyddocaol debygol ar gyfanrwydd y safle, mae CDLl diwygiedig yn strategol drwy ddatblygu fframwaith ar gyfer prosiectau yn y dyfodol - sy'n golygu bod manylion lliniaru penodol ar lefel prosiect yn aml yn dod i'r amlwg yn ddiweddarach yn dilyn mabwysiadu'r cynllun. Amlygodd y *Llys Apêl yn NANT v Suffolk Coastal District Council*:[20]

> *"nid y cwestiwn pwysig mewn achos o'r fath yw p'un a gafodd mesurau lliniaru eu hystyried ar y cam "*Strategaeth Graidd*" mor fanwl ag a ganiateir gan yr wybodaeth oedd ar gael, ond p'un a oedd digon o wybodaeth bryd hynny i alluogi'r cyngor i fod yn gwbl fodlon y gellid cyflawni'r mesurau lliniaru arfaethedig yn ymarferol."*

3.0.3 Yn *Abbotskerswell Parish Council v Teignbridge District Council*[21], cadarnhaodd yr Uchel Lys nad oedd yn rhaid i strategaethau lliniaru fod ar waith cyn mabwysiadu CDLl diwygiedig. Dyfarnodd y llys fod:

> *"gan yr Arolygydd hawl i ddod i'r casgliad bod y Cynllun Lleol yn bodloni'r gofynion statudol a'i fod yn gadarn."*

3.0.4 At hynny, yn *Feeney v Oxford City Council,*[22] cadarnhaodd yr Uchel Lys yr egwyddor y gallai polisïau'r CDLl fod yn amodol ar fodloni rhai mesurau diogelu:

> *"Does dim byd o'i le mewn cymeradwyo rhywbeth mewn egwyddor na fydd efallai'n digwydd yn y dyfodol os na chaiff yr amod ei fodloni."*
>
> *"Mae'r gymeradwyaeth amodol yn gam gweithredu cyfreithlon a ganiateir."*

3.0.5 Yng ngoleuni hyn, wrth asesu mesurau lliniaru mewn Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel cynllun, y mater hollbwysig yw a ellir dibynnu arnynt i osgoi effaith andwyol ar y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Felly, mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys yr awdurdod cymwys, fod yn fodlon bod modd cyflawni unrhyw bolisi lliniaru wedi'i sefydlu a/neu fesurau lliniaru ar gyfer datblygiadau penodol yn ymarferol.

---

[20] No Adastral New Town Ltd v Cyngor Dosbarth Arfordirol Suffolk 2015
[21] Abbotskerswell Parish Council v Teignbridge District Council & Anor 2014
[22] Feeney v Oxford City Council 2012

3.0.6 Yn dilyn adolygiad, mae ymgorffori mesurau lliniaru a phrawf cyfanrwydd ar gyfer yr effeithiau arwyddocaol tebygol hynny sy'n deillio o ddyraniadau'r CDLl diwygiedig (fel y'u cynhwysir mewn ymdrechion ARhC blaenorol) yn berthnasol i'r effeithiau arwyddocaol tebygol hynny a nodwyd yn sgil cynnwys y Safleoedd Ychwanegol o bosibl yn y CDLl diwygiedig (h.y., mae effeithiau Safleoedd Ychwanegol a Dyraniadau'r CDLl diwygiedig yn gyfatebol). O'r herwydd, dibynnir o hyd ar y mesurau lliniaru wedi'u sefydlu a nodir yn y CDLl diwygiedig (fel y disgrifiwyd mewn ymdrechion ARhC cynharach) i liniaru'r effeithiau a nodir ym Mhennod 2. Penderfynwyd ar hyn ar ôl eu hadolygu a chanfod eu bod yn dal i fod yn briodol.

## 3.1 Ymdrin ag Effeithiau Cyfunol

3.1.1 Yn gyson â'r uchod, mae'r mesurau lliniaru a gyflwynwyd mewn ymdrechion ARhC blaenorol ar gyfer yr effeithiau hynny a nodwyd drwy ddŵr gwastraff yn dal yn briodol. Hefyd, bydd yn bwysig parhau i gydweithio â Dŵr Cymru ac awdurdodau lleol cyfagos i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau cyfunol yn deillio o newidiadau yn y dyfodol i'r capasiti/hyblygrwydd sydd ar gael yn y gweithfeydd trin dŵr gwastraff, a datblygiad parhaus y Cynlluniau Datblygu Lleol eraill sydd wedi'u rhaglennu.

3.1.2 Wrth ystyried Paragraff 2.4.3, ac fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn Adran 4.3.5 Atodiad C yn yr *2il Adendwm ARhC*, dylai unrhyw fesurau liniaru ar raddfa dalgylch yn y dyfodol barhau i fod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyllideb faetholion gronnus ar gyfer ACA Teifi ochr yn ochr â'r asesiad cydymffurfio ansawdd dŵr diweddaraf ar gyfer holl gyrff dŵr ACA. Mae mesurau lliniaru ar gyfer y llwybr hwn yn parhau i gael eu cyflwyno yn yr *Adendwm ARhC* (fel y'i diwygiwyd gan yr *2il Adendwm ARhC*) a'r *2il Adendwm ARhC*, ond, yng ngoleuni hyn, cyfeirir at Baragraff 3.0.3.

# 4. Casgliad

4.1 Mae'r holl gynigion a dyraniadau sydd wedi'u cynnwys yn yr 2il CDLl Diwygiedig Adneuo, ochr yn ochr â'r Safleoedd Ychwanegol a gyflwynwyd i'w cynnwys, wedi cael eu sgrinio o dan y Rheoliadau. Ni nodwyd llwybr effaith ychwanegol na safle ychwanegol o ran y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yr effeithir arnynt yn atodol i'r rhai y penderfynwyd arnynt mewn ymdrechion ARhC blaenorol.

4.2 O ran y materion hynny a aseswyd trwy hyn, **casgliad yr *Adendwm Safleoedd Ychwanegol ARhC* presennol yw na fydd cynnwys y Safleoedd Ychwanegol yn yr 2il CDLl diwygiedig Adneuo yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol.**[23]

4.3 Mae'r casgliad uchod yn gyson â'r hyn a wnaed ym Mhennod 5 yr *Adroddiad ARhC* (fel y'i diwygiwyd gan yr *Adendwm ARhC*), yr *Adendwm ARhC* (fel y'i diwygiwyd gan yr *2il Adendwm ARhC*), a'r 2il *Adendwm ARhC*.

# 5. Y Camau Nesaf

5.1 Bydd y ddogfen hon yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Gellir edrych ar y CDLl diwygiedig a'r dogfennau cysylltiedig (gan gynnwys yr ARhC cyfan) ar-lein, neu drwy fynd i Ganolfannau Hwb Gwasanaethau Cwsmeriaid a llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod yr oriau agor a hysbysebir.

5.2 Gellir gwneud eich sylwadau ar-lein drwy'r Dudalen Ymgynghori. Fel arall, mae ffurflenni ymateb ar gael ar gais.

I anfon eich sylwadau yn ysgrifenedig, ysgrifennwch at:

Polisi Strategol a Chreu Lleoedd
Lle a Seilwaith
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1LE

Neu e-bost: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

Nodwch 'HRA' yn y pwnc.

5.3 Rhaid i sylwadau ddod i law erbyn y dyddiad a'r amser priodol a nodwyd ar y Dudalen Ymgynghori. Mae'n bosibl na fydd sylwadau sy'n cael eu cyflwyno ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

5.4 Er mwyn sicrhau bod gofynion y Rheoliadau yn cael eu bodloni, bydd angen ystyried yr holl newidiadau pellach i'r CDLl diwygiedig yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Arolygydd. Felly, bydd ARhC ar unrhyw Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

[23] Ymgynghorir o hyd â'r CCNS ynghylch y casgliad hwn.

# Atodiad A. Sylwebaeth Sgrinio (Safleoedd Ychwanegol)

| **Cyf. Safle** | | **PrC1/(iv)** | **Enw** | Tir oddi ar Heol Trefechan, Caerfyrddin | **Clwstwr** | 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau** | | Mae gan y safle hwn gyfanswm capasiti o 30 uned breswyl. Mae'r safle datblygu arfaethedig yn ffinio yn y gogledd â Nant Tawelan sydd â safle bridio dyfrgwn a gofnodwyd gerllaw. | | | | |
| **Sgrinio Cyffredinol** | **Categori** | **Gallu cael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol** | | | | |
| | **Deilliant** | **Sgrinio i Mewn** | | | | |

**Canlyniadau Sgrinio Manwl**

| Effaith Bosibl | Categori Sgrinio | Cyfiawnhad a Chasgliad | Deilliant Sgrinio |
|---|---|---|---|
| Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol | **I** | Mae'r safle yn ffinio â chwrs dŵr a allai arwain at effeithiau posibl ar ACA Afon Tywi ac ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd o ganlyniad i ddŵr ffo llygredig, yn enwedig yn ystod y cyfod adeiladu. | Sgriniwyd i Mewn |
| Effeithiau ar yr amgylchedd morol | **I** | (fel yr uchod) | Sgriniwyd i Mewn |
| Effeithiau ar yr arfordir | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar rywogaethau symudol | **I** | Gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr beri risg i ddyfrgwn. Mae hyn wedi'i gefnogi gan gofnodion cyfagos o strwythurau a safleoedd bridio cysylltiedig. | Sgriniwyd i Mewn |
| Effeithiau hamdden | **H** | Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr ARhC hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb. | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu | **G** | (fel yr uchod) | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff | **I** | Bydd y safle yn debygol o fod wedi'i gysylltu â GTDG Parc y Sblot sydd wedi nodi problemau yn ymwneud â Llif Tywydd Sych. Bydd angen mesurau lliniaru er mwyn atal gorlwytho hydrolig gan arwain at gynnydd posibl yn amlder gollyngiadau o orlifoedd carthffosiaeth gyfun – effeithiau andwyol posibl ar ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd | Sgriniwyd i Mewn |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosfforws | **G** | Mae'r safle tu allan i'r Dalgylch ACA sensitif i ffosfforws | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd Aer | **G** | Nid yw'r safle neu'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig o fewn 200m i Safle Ewropeaidd | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau | **I** | Gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr beri risg i ddyfrgwn. | Sgriniwyd i Mewn |

| **Cyf. Safle** | | **PrC2/(iii)** | **Enw** | Tir yn Heol Pendderi, y Bryn | **Clwstwr** | 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau** | | Mae gan y safle hwn gyfanswm capasiti o 35 uned breswyl, ac mae rhan o'r cyfanswm arwynebedd wedi'i mabwysiadu ar hyn o bryd yn y CDLl cyfredol (gweler GA2/h45) | | | | |
| **Sgrinio Cyffredinol** | **Categori** | **Gallu cael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol** | | | | |
| | **Deilliant** | **Sgrinio i Mewn** | | | | |

**Canlyniadau Sgrinio Manwl**

| Effaith Bosibl | Categori Sgrinio | Cyfiawnhad a Chasgliad | Deilliant Sgrinio |
|---|---|---|---|
| Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar yr amgylchedd morol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar yr arfordir | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar rywogaethau symudol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau hamdden | **H** | Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr ARhC hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb. | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu | **G** | (fel yr uchod) | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff | **I** | Bydd y safle yn debygol o fod wedi'i gysylltu â GTDG Llanelli sydd, fel y'i nodwyd ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cilfach Tywyn, â phroblemau o ran y rhwydwaith carthffosiaeth oherwydd ei natur gyfunol. Bydd angen mesurau lliniaru er mwyn atal gorlwytho hydrolig yn ogystal â chynnydd posibl yn amlder gollyngiadau o orlifoedd carthffosiaeth gyfun – effeithiau andwyol posibl ar AGA Cilfach Tywyn ac ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd | Sgriniwyd i Mewn |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosfforws | **G** | Mae'r safle tu allan i'r Dalgylch ACA sensitif i ffosfforws | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd Aer | **G** | Nid yw'r safle neu'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig o fewn 200m i Safle Ewropeaidd | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |

| **Cyf. Safle** | | **PrC2/(v)** | **Enw** | Tir oddi ar Heol y Mynydd, y Bryn | **Clwstwr** | 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau** | | Mae gan y safle hwn gyfanswm capasiti o 80 uned breswyl. Mae'r safle datblygu arfaethedig oddeutu 1.4km o ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd a 2km o AGA Cilfach Tywyn, yn y drefn honno. Ar bellteroedd o'r fath, mae effeithiau lleol sy'n gysylltiedig ag agosrwydd datblygiad yn annhebygol. | | | | |
| **Sgrinio Cyffredinol** | **Categori** | **Gallu cael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol** | | | | |
| | **Deilliant** | **Sgrinio i Mewn** | | | | |

**Canlyniadau Sgrinio Manwl**

| **Effaith Bosibl** | **Categori Sgrinio** | **Cyfiawnhad a Chasgliad** | **Deilliant Sgrinio** |
|---|---|---|---|
| Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar yr amgylchedd morol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar yr arfordir | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar rywogaethau symudol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau hamdden | **H** | Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr ARhC hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb. | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu | **G** | (fel yr uchod) | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff | **I** | Bydd y safle yn debygol o fod wedi'i gysylltu â GTDG Llanelli sydd, fel y'i nodwyd ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cilfach Tywyn, â phroblemau o ran y rhwydwaith carthffosiaeth oherwydd ei natur gyfunol. Bydd angen mesurau lliniaru er mwyn atal gorlwytho hydrolig yn ogystal â chynnydd posibl yn amlder gollyngiadau o orlifoedd carthffosiaeth gyfun – effeithiau andwyol posibl ar AGA Cilfach Tywyn ac ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd | Sgriniwyd i Mewn |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosfforws | **G** | Mae'r safle tu allan i'r Dalgylch ACA sensitif i ffosfforws | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd Aer | **G** | Nid yw'r safle neu'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig o fewn 200m i Safle Ewropeaidd | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |

| **Cyf. Safle** | | **SeC6/(ii)** | **Enw** | Garej Y Fforest | **Clwstwr** | 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau** | | Mae gan y safle hwn gyfanswm capasiti o 8 uned breswyl. Mae'r safle datblygu arfaethedig tua 1.4km o ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd a 40 metr o Afon Llwchwr. Ar y fath bellteroedd mae effeithiau lleol sy'n gysylltiedig ag agosrwydd at ddatblygiad yn annhebygol. | | | | |
| **Sgrinio Cyffredinol** | **Categori** | **Gallu cael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol** | | | | |
| | **Deilliant** | **Sgrinio i Mewn** | | | | |

**Canlyniadau Sgrinio Manwl**

| **Effaith Bosibl** | **Categori Sgrinio** | **Cyfiawnhad a Chasgliad** | **Deilliant Sgrinio** |
|---|---|---|---|
| Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol | **I** | Gallai'r safle fod yn gysylltiedig â Afon Llwchwr a allai arwain at effeithiau posibl i ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd o ddŵr ffo llygredd, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu. | Sgriniwyd i Mewn |
| Effeithiau ar yr amgylchedd morol | **I** | (fel yr uchod) | Sgriniwyd i Mewn |
| Effeithiau ar yr arfordir | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar rywogaethau symudol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau hamdden | **H** | Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr ARhC hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb. | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu | **G** | (fel yr uchod) | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff | **J (K)** | Mae'n debyg y bydd y safle yn gysylltiedig â Llannant GTDG. Dim problemau hysbys. | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosfforws | **G** | Mae'r safle tu allan i'r Dalgylch ACA sensitif i ffosfforws | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd Aer | **G** | Nid yw'r safle neu'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig o fewn 200m i Safle Ewropeaidd | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |

| **Cyf. Safle** | | **SeC6/(iii)** | **Enw** | Tir ar Heol Fforest | **Clwstwr** | 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau** | | Mae gan y safle hwn gyfanswm capasiti o 35 o unedau preswyl. Mae'r safle datblygu arfaethedig tua 1.6km o ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd. Ar y fath bellteroedd mae effeithiau lleol sy'n gysylltiedig ag agosrwydd at ddatblygiad yn annhebygol. | | | | |
| **Sgrinio Cyffredinol** | **Categori** | **Gallu cael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol** | | | | |
| | **Deilliant** | **Sgrinio i Mewn** | | | | |

**Canlyniadau Sgrinio Manwl**

| Effaith Bosibl | Categori Sgrinio | Cyfiawnhad a Chasgliad | Deilliant Sgrinio |
|---|---|---|---|
| Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol | **I** | Mae'r safle yn agos at Afon Llwchwr a allai arwain at effeithiau posibl i ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd o ddŵr ffo llygredd, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu. | Sgriniwyd i Mewn |
| Effeithiau ar yr amgylchedd morol | **I** | (fel yr uchod) | Sgriniwyd i Mewn |
| Effeithiau ar yr arfordir | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar rywogaethau symudol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau hamdden | **H** | Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr ARhC hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb. | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu | **G** | (fel yr uchod) | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff | **J (K)** | Mae'n debyg y bydd y safle yn gysylltiedig â Llannant GTDG. Dim problemau hysbys. | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosfforws | **G** | Mae'r safle tu allan i'r Dalgylch ACA sensitif i ffosfforws | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd Aer | **G** | Nid yw'r safle neu'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig o fewn 200m i Safle Ewropeaidd | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |

<table>
<tr><td colspan="2">Cyf. Safle</td><td>PrC3/(ix)</td><td>Enw</td><td colspan="2">Iard Sgrap, Gorslas</td><td>Clwstwr</td><td>3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Sylwadau</td><td colspan="6">Mae gan y safle hwn gyfanswm capasiti o 80 uned breswyl. Mae'r safle yn ffinio ag Afon Gwendraeth Fawr i'r dwyrain a'r de sydd wedi'i chysylltu'n hydrolegol â Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Mae'r safle datblygu arfaethedig 0.6km i'r de o strwythur bridio dyfrgwn a gofnodwyd, ac mae hefyd tua 1.4km o ACA Cernydd Carmel ac ACA Caeau'r Mynydd Mawr.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Sgrinio Cyffredinol</td><td>Categori</td><td colspan="6">Gallu cael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol</td></tr>
<tr><td>Deilliant</td><td colspan="6">Sgrinio i Mewn</td></tr>
<tr><td colspan="8">Canlyniadau Sgrinio Manwl</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effaith Bosibl</td><td>Categori Sgrinio</td><td colspan="3">Cyfiawnhad a Chasgliad</td><td>Deilliant Sgrinio</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol</td><td>I</td><td colspan="3">Mae'r safle yn agos at gwrs dŵr a allai arwain at effeithiau posibl ar ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd o ganlyniad i ddŵr ffo llygredig, yn enwedig yn ystod y cyfod adeiladu.</td><td>Sgriniwyd i Mewn</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar yr amgylchedd morol</td><td>I</td><td colspan="3">(fel yr uchod)</td><td>Sgriniwyd i Mewn</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar yr arfordir</td><td>G</td><td colspan="3">Dim</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar rywogaethau symudol</td><td>I</td><td colspan="3">Mae'r safle mewn ardal a allai gynnwys cynefin addas ar gyfer metaboblogaeth Britheg y Gors Caeau'r Mynydd Mawr. Hefyd, gall agosrwydd y safle at gwrs dŵr beri risg i ddyfrgwn. Mae hyn wedi'i gefnogi gan gofnodion cyfagos o strwythurau a safleoedd bridio cysylltiedig.</td><td>Sgriniwyd i Mewn</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau hamdden</td><td>H</td><td colspan="3">Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr ARhC hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb.</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu</td><td>G</td><td colspan="3">(fel yr uchod)</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff</td><td>J (K)</td><td colspan="3">Dim</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosfforws</td><td>G</td><td colspan="3">Mae'r safle tu allan i'r Dalgylch ACA sensitif i ffosfforws</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd Aer</td><td>G</td><td colspan="3">Nid yw'r safle neu'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig o fewn 200m i Safle Ewropeaidd</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau</td><td>I</td><td colspan="3">Gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr beri risg i ddyfrgwn.</td><td>Sgriniwyd i Mewn</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">Cyf. Safle</th><th>PrC3/(viii)</th><th>Enw</th><th colspan="2">Tir y tu cefn i 108 a 114 Heol Waterloo</th><th>Clwstwr</th><th>3</th></tr>
<tr><td colspan="2">Sylwadau</td><td colspan="6">Mae gan y safle hwn gyfanswm capasiti o 6 uned breswyl. Mae'r safle datblygu arfaethedig tua 2.3km o ACA Cernydd Carmel ac 1km o ACA Caeau'r Mynydd Mawr. Ar bellteroedd o'r fath, mae effeithiau lleol sy'n gysylltiedig ag agosrwydd datblygiad yn cael eu hystyried yn annhebygol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Sgrinio Cyffredinol</td><td>Categori</td><td colspan="6">Gallu cael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol</td></tr>
<tr><td>Deilliant</td><td colspan="6">Sgrinio i Mewn</td></tr>
<tr><th colspan="8">Canlyniadau Sgrinio Manwl</th></tr>
<tr><th colspan="3">Effaith Bosibl</th><th>Categori Sgrinio</th><th colspan="3">Cyfiawnhad a Chasgliad</th><th>Deilliant Sgrinio</th></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol</td><td>G</td><td colspan="3">Dim</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar yr amgylchedd morol</td><td>G</td><td colspan="3">Dim</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar yr arfordir</td><td>G</td><td colspan="3">Dim</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar rywogaethau symudol</td><td>I</td><td colspan="3">Mae'r safle mewn ardal a allai gynnwys cynefin addas ar gyfer metaboblogaeth Britheg y Gors Caeau'r Mynydd Mawr. Sgriniwyd i mewn ar sail ragofalus.</td><td>Sgriniwyd i Mewn</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau hamdden</td><td>H</td><td colspan="3">Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr ARhC hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb.</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu</td><td>G</td><td colspan="3">(fel yr uchod)</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff</td><td>J (K)</td><td colspan="3">Dim</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosfforws</td><td>G</td><td colspan="3">Mae'r safle tu allan i'r Dalgylch ACA sensitif i ffosfforws</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd Aer</td><td>G</td><td colspan="3">Nid yw'r safle neu'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig o fewn 200m i Safle Ewropeaidd</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau</td><td>G</td><td colspan="3">Dim</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
</table>

| **Cyf. Safle** | | **PrC3/(v)** | **Enw** | Tir oddi ar Heol Parcdir, Pen-y-banc (Rhydaman) | **Clwstwr** | 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau** | | Mae gan y safle hwn gyfanswm capasiti o 9 uned breswyl. Mae'r safle datblygu arfaethedig tua 3.4km o ACA Caeau'r Mynydd Mawr a 3.8km o Gernydd Carmel. Ar bellteroedd o'r fath, mae effeithiau lleol sy'n gysylltiedig ag agosrwydd datblygiad yn annhebygol. | | | | |
| **Sgrinio Cyffredinol** | **Categori** | **Gallu cael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol** | | | | |
| | **Deilliant** | **Sgrinio i Mewn** | | | | |

**Canlyniadau Sgrinio Manwl**

| Effaith Bosibl | Categori Sgrinio | Cyfiawnhad a Chasgliad | Deilliant Sgrinio |
|---|---|---|---|
| Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar yr amgylchedd morol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar yr arfordir | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar rywogaethau symudol | **I** | Mae'r safle mewn ardal a allai gynnwys cynefin addas ar gyfer metaboblogaeth Britheg y Gors Caeau'r Mynydd Mawr. Sgriniwyd i mewn ar sail ragofalus. | Sgriniwyd i Mewn |
| Effeithiau hamdden | **H** | Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr ARhC hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb. | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu | **G** | (fel yr uchod) | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff | **J (K)** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosfforws | **G** | Mae'r safle tu allan i'r Dalgylch ACA sensitif i ffosfforws | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd Aer | **G** | Nid yw'r safle neu'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig o fewn 200m i Safle Ewropeaidd | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |

<table>
<tr><td colspan="2">Cyf. Safle</td><td>PrC3/(ii)</td><td>Enw</td><td colspan="2">Gerllaw Pant-y-Blodau, Pen-y-groes</td><td>Clwstwr</td><td>3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Sylwadau</td><td colspan="6">Mae gan y safle hwn gyfanswm capasiti o 90 uned, er bod gan 79 o'r rhain ganiatâd presennol (fel ymrwymiad, gweler E/29910, cyfeirnod PrC3/h22). Byddai dyraniad yn ymestyn ffin y safle ac yn cynyddu’r ffigwr dangosol tai 11 ar gyfer cyfanswm o 90 o anheddau. Mae'r safle datblygu arfaethedig tua 2.4km o ACA Cernydd Carmel ac 0.8km o ACA Caeau'r Mynydd Mawr. Ar bellteroedd o'r fath, mae effeithiau lleol sy'n gysylltiedig ag agosrwydd datblygiad yn cael eu hystyried yn annhebygol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Sgrinio Cyffredinol</td><td>Categori</td><td colspan="6">Gallu cael effaith arwyddocaol ar safle yn unigol</td></tr>
<tr><td>Deilliant</td><td colspan="6">Sgrinio i Mewn</td></tr>
<tr><td colspan="8">Canlyniadau Sgrinio Manwl</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effaith Bosibl</td><td>Categori Sgrinio</td><td colspan="3">Cyfiawnhad a Chasgliad</td><td>Deilliant Sgrinio</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol</td><td>G</td><td colspan="3">Dim</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar yr amgylchedd morol</td><td>G</td><td colspan="3">Dim</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar yr arfordir</td><td>G</td><td colspan="3">Dim</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau ar rywogaethau symudol</td><td>I</td><td colspan="3">Mae'r safle mewn ardal a allai gynnwys cynefin addas ar gyfer metaboblogaeth Britheg y Gors Caeau'r Mynydd Mawr. Sgriniwyd i mewn ar sail ragofalus.</td><td>Sgriniwyd i Mewn</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau hamdden</td><td>H</td><td colspan="3">Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr ARhC hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb.</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu</td><td>G</td><td colspan="3">(fel yr uchod)</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff</td><td>J (K)</td><td colspan="3">Dim (gweler paragraff 2.2.4)</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosfforws</td><td>G</td><td colspan="3">Mae'r safle tu allan i'r Dalgylch ACA sensitif i ffosfforws</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd Aer</td><td>G</td><td colspan="3">Nid yw'r safle neu'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig o fewn 200m i Safle Ewropeaidd</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau</td><td>G</td><td colspan="3">Dim</td><td>Sgriniwyd Allan</td></tr>
</table>

| **Cyf. Safle** | | **SuV59/(i)** | **Enw** | I'r gogledd-ddwyrain o Ysgol Bancyfelin | **Clwstwr** | 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau** | | Mae gan y safle hwn gyfanswm capasiti o 16 uned breswyl (yn amodol ar gais, gweler PL/08456). Mae'r safle datblygu arfaethedig tua 4.8km o Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ond nid yw wedi'i gysylltu'n ofodol â'r safle. Ar bellteroedd o'r fath, mae effeithiau lleol sy'n gysylltiedig ag agosrwydd datblygiad yn annhebygol. | | | | |
| **Sgrinio Cyffredinol** | **Categori** | **Dim effeithiau arwyddocaol tebygol naill ai'n 'unigol' neu'n gyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill** | | | | |
| | **Deilliant** | **Sgrinio Allan** | | | | |

**Canlyniadau Sgrinio Manwl**

| Effaith Bosibl | Categori Sgrinio | Cyfiawnhad a Chasgliad | Deilliant Sgrinio |
|---|---|---|---|
| Effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar yr amgylchedd morol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar yr arfordir | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau ar rywogaethau symudol | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau hamdden | **H** | Sgriniwyd allan yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac mae'r casgliad wedi'i 'fabwysiadu' at ddiben yr ARhC hwn, lle nad oes unrhyw ddeunydd ychwanegol wedi dod i'r amlwg i'r gwrthwyneb. | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Echdynnu | **G** | (fel yr uchod) | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Dŵr Gwastraff | **J (K)** | Dim | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Ffosfforws | **G** | Mae'r safle tu allan i'r Dalgylch ACA sensitif i ffosfforws | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Llygredd Aer | **G** | Nid yw'r safle neu'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig o fewn 200m i Safle Ewropeaidd | Sgriniwyd Allan |
| Effeithiau cynnydd mewn datblygu: Aflonyddwch, Llygredd Sŵn a Golau | **G** | Dim | Sgriniwyd Allan |